Afasic GeirfA

Anhrefnu geiriau

Beth yw anhrefnu geiriau ?

Lleferydd sydd mor gyflym, mor gymysglyd ac mor anghywir nes ei bod bron yn annealladwy. Fe'i disgrifir yn amrywiol fel anhwylder echddygol ac **anhwylder rhugldr.** Disgrifiwyd anhrefnu geiriau gan Luchsinger ac Arnold ym 1951, ac mae barn pobl wedi amrywio o ran ai math o atal dweud ydyw neu anhwylder ar wahân.

Beth ellir ei ddweud am anhrefnu geiriau?

- mae lleferydd yn eithriadol o gyflym
- efallai y bydd person sy'n anhrefnu ei eiriau yn dechrau sgwrs ar gyflymder arferol, ond yn raddol bydd yn siarad yn fwyfwy cyflym
- efallai y caiff synau, sillafau a geiriau eu hepgor
- efallai y cywesgir sillafau, h.y. eu byrhau trwy hepgor rhai synau
- efallai yr ailadroddir synau
- efallai y bydd anadlu'n anghyson
- efallai y bydd ysgrifen yn dangos effeithiau tebyg
- efallai na fydd y siaradwr yn ymwybodol o'i leferydd nac yn pryderi y ei gylch.

Beth sy'n ei achosi ?

Mae rhywfaint o dystiolaeth yn awgrymu efallai fod yna achos cynhenid – mewn geiriau eraill mai math o abnormaledd corfforol sy'n gyfrifol am anhrefnu geiriau. Credir hefyd y gall anhrefnu geiriau, i ryw raddau, fod yn gyflwr etifeddol.

A ellir ei drin?

Mae triniaeth yn anodd oherwydd diffyg ymwybyddiaeth y person sy'n anhrefnu geiriau, ac efallai oherwydd sail gynhenid i'r anhwylder. Yn wahanol i unigolion sydd ag atal dweud, dim ond ychydig o bobl sy'n anhrefnu geiriau fydd yn ceisio therapi. Os caiff gymhelliant, fodd bynnag, gellir dysgu unigolyn sy'n anhrefnu ei eiriau i fod yn fwy ymwybodol o'i leferydd/lleferydd, ac i addasu'r nodweddion hynny sy'n amharu ar gyfathrebu.

Awgrymiadau ar gyfer deunydd darllen

Myers, F a St Louis, K (1992), *Cluttering*, Whurr

Rustin, L (1990), *Parents, Families and the Stuttering Child*, Whurr

Ysgrifennwyd gan Pat Mobley, rheolwraig therapi lleferydd ac iaith, Oldham.